

Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015-2030

Datganiad Sefyllfa
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mawrth 2021

CDLI Sir y Fflint i'w Archwilio gan y Cyhoedd

Datganiad Sefyllfa Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

1. Rhagarweiniad

1.1 Paratowyd y Datganiad Sefyllfa hwn rhwng Cyngor Sir y Fflint a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) sef y corff sy'n gyfrifol am gynllunio a chyflwyno cyfleusterau gofal iechyd a gwasanaethau ar draws Sir y Fflint.

2. Pwrpas y ddogfen hon

2.1 Pwrpas y Datganiad Sefyllfa yma yw gosod y sefyllfa y cytunwyd arni rhwng yr Awdurdod Cynllunio Lleol a BIPBC mewn cysylltiad â gwrthwynebiadau i'r CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd, yn bennaf gan aelodau o'r cyhoedd, sy'n mynegi pryderon am effaith y datblygiad newydd ar ddarpariaeth gofal iechyd yn y Sir. Bydd yn darparu datganiad sefyllfa defnyddiol ar gyfer yr Archwilydd drwy sefydlu pa fesurau y mae BIPBC yn bwriadu eu cymryd er mwyn sicrhau bod darpariaeth gofal iechyd yn gallu ymdopi â'r twf sydd wedi'i gynllunio yn y CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd.

3. Trosolwg o ymgysylltu

3.1 Mae BIPBC yn 'corff ymgynghori penodol' yn y broses o baratoi cynllun felly mae'r ddau barti wedi cydweithio'n agos trwy gydol y camau gwahanol o baratoi'r CDLI h.y. Dogfen Negeseuon Allweddol, Dewisiadau Strategol, Strategaeth a Ffafirir a'r CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd. Yn fwy penodol, o'r camau ymgysylltu cynharaf wrth baratoi'r cynllun, sefydlodd y Cyngor Fforwm Budd-ddeiliaid Allweddol, ac mae BIPBC yn aelod o'r Fforwm hwnnw.

3.2 Mae gwrthwynebiadau'r cyhoedd wedi canolbwyntio ar ddyraniadau tai penodol yn y Cynllun, ond mae hi'n bwysig pwysleisio y bydd y Cynllun cyfan yn darparu twf tai dros y Sir cyfan dros gyfnod o 15 mlynedd y Cynllun. Ym mhump mlynedd cyntaf y Cynllun, mae tai a gwblhawyd gyfystyr â 2,609 uned neu 38% o ofyniad tai y Cynllun o 6,950 annedd. Mae rhan sylweddol o ofyniad tai cyffredinol y Cynllun felly eisoes wedi cael ei ddarparu.

3.3 Yn y cyfnod ers ymgynghori ar y ddogfen i'w harchwilio gan y cyhoedd, cynhaliwyd sawl cyfarfod rhwng CSFf a BIPBC er mae argyfwng Covid-19 wedi effeithio ar hyn, ynghyd â'r angen bod BIPBC yn canolbwyntio amser ac adnoddau ar flaenoriaethau gwaith eraill.

4. Dyletswyddau statudol BIPBC a'i gyfraniad yn y broses gynllunio

4.1 Roedd Cynllun Isadeiledd (Papur Cefnir LPD03) yn cyd-fynd â'r CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd, lle rhoddodd y Bwrdd Iechyd sylw am ddarpariaeth gofal iechyd yn y Sir yn cynnwys eu strategaeth at y dyfodol i fodloni anghenion gofal iechyd mewn poblogaeth sy'n tyfu. ([LDP-EBD-BP3](#)).

4.2 Derbyniwyd llawer o wrthwynebiadau i ddyraniadau tai y CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd ar draws y Sir sydd yn mynegi pryder am ddarpariaeth gofal iechyd ac effaith y datblygiad newydd. Mae pryderon cyffredin yn cynnwys colli meddygfeydd teulu lleol, anallu i gofrestru gyda meddygfa, anallu i gael apwyntiadau, gorfod aros am amser hir am apwyntiadau nad ydynt yn rhai brys. Er mor rhwystredig neu drist yw hyn, nid yw'r problemau yma'n benodol i aneddiadau yn Sir y Fflint, ac maent yn broblemau ar draws Cymru gyfan. Mae'r safleoedd yn cynnwys:

HN1.1 Well Street, Bwcle, 159 uned

HN1.3 Highmere Drive, Cei Connah 150 uned

HN1.4 Northop Road Fflint 170 uned

HN1.6 – Tir rhwng Ffordd Dinbych a Ffordd Gwernaffield, 246 uned

HN1.7 Ffordd Treffynnon / Green Lane, Ewlo, 298 uned

HN1.8 Ash Lane, Penarlâg, 288 uned

HN1.9 Wrexham Road, Abermorddu, HCAC 80 uned

HN1.10 Cae Isa, New Brighton, 105 uned

STR3B Warren Hall, Brychdyn 300 uned

4.3 Fe all y system gynllunio gynorthwyo gyda darparu cyfleusterau iechyd megis adeiladau newydd neu ddarparu tir ar gyfer adeiladau newydd ar ffurf rhwymedigaethau cynllunio, ond ni all gynorthwyo i ariannu staff.

4.4 Mae hi'n bwysig nodi nad ydi BIPBC wedi gwneud sylwadau ar y CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd ac felly nid oes gwrthwynebiad ffurfiol i'r lefel o dwf a fydd yn cael ei ddarparu dros gyfnod y cynllun, nac i ddyraniadau penodol. Dealltwriaeth y Cyngor yw mai sefyllfa bwriedig ydyw, o ystyried faint o gydweithio sydd wedi digwydd, a phrif ymagwedd a strategaeth y Bwrdd Iechyd ar gyfer darpariaeth gofal iechyd yn y dyfodol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi darparu crynodeb wedi'i ddiweddarau o'r datganiad sefyllfa isod am sut maent yn bwriadu mynd i'r afael â darpariaeth twf yn y CDLI a'i oblygiadau ag gyfer cymunedau rŵan a mynediad at ofal iechyd yn y dyfodol.

5. Mynd i'r Afael â Phryderon am Gapasiti'r Gofal Iechyd – Sefyllfa'r Bwrdd Iechyd

5.1 Mae gan y Bwrdd Iechyd flaenoriaeth barhaol o sicrhau bod capasiti gofal iechyd yn bodloni gofynion ei boblogaeth. Mae gan Sir y Fflint, yn gyffredin â gweddill Cymru, nifer o bwysau poblogaeth:

- Twf – trwy aelwydydd yn ymestyn, datblygiadau preswyl a thwf economaidd
- Poblogaeth sy'n heneiddio – mae ein poblogaeth yn byw yn hirach – ond mae yna her rhwng byw yn hirach a byw yn hirach gyda iechyd da
- Mae nifer o breswylwyr yn byw gyda chyflyrau hirdymor.

5.2 Ar draws Sir y Fflint ar hyn o bryd, mae yna nifer o heriau rydym fel Bwrdd Iechyd yn gobeithio mynd i'r afael â nhw er mwyn lliniaru'r pwysau yma:

- Mae sawl meddygfa deulu yn Sir y Fflint yn gweithio yn agos at uchafswm eu rhestr cleifion gyda chapasiti annigonol o fewn y pwysau presennol i ymdopi â lefel a dosbarthiad y twf disgwylidig yn y boblogaeth. Bydd y Bwrdd Iechyd yn ceisio sicrhau bod safleoedd ar gyfer cyfleusterau newydd yn adlewyrchu'r dosbarthiad gofodol o angen, pwysigrwydd hygyrchedd a chreu cyfleoedd i ddarparu'r gwasanaeth gwahanol rannu cyfleusterau.
- Er mai ychydig o sgôp i ehangu sydd o fewn rhai meddygfeydd teulu presennol, mae yna eraill sydd â photensial i'w ymestyn. Dros y blynyddoedd diwethaf mae nifer o gyfleusterau gofal sylfaenol newydd wedi cael eu datblygu yn Sir y Fflint, yn cynnwys er enghraifft Canolfan Iechyd a Lles Bwcle, Cei Connah a'r Fflint (a agorwyd yn 2018).
- Mae cynaliadwyedd rhai o'r meddygfeydd yn golygu bod angen ymyrraeth y Bwrdd Iechyd gan arwain at reoli rhai o feddygfeydd yn uniongyrchol yn y Sir. Mewn rhai amgylchiadau, gall fod yn angenrheidiol i barhau i reoli meddygfeydd ychwanegol am gyfnod estynedig.
- Pan fyddant yn cael eu hariannu gan ddyraniad cyfalaf cyhoeddus, mae cost cyfalaf Cyfleusterau Gofal Sylfaenol yn destun achos busnes sydd yn ffurfio rhan o gyflwyniad cyfalaf y Bwrdd Iechyd i Lywodraeth Cymru o dan raglen gwella'r gwasanaeth iechyd. Mae'r rhaglen gyfalaf yn destun cyfyngiad yn ôl argaeledd a blaenoriaethu ar draws y rhaglen Cymru gyfan.

5.3 Wrth liniaru'r galw parhaus a thwf mewn lefelau poblogaeth, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithredu'r weledigaeth strategol sydd wedi'i amlinellu yn 'Cymru Iachach'. Yn benodol, mae hyn yn cynnwys:

- Datblygu gwasanaethau sy'n seiliedig ar glwstwr gan greu arbedion maint sy'n cefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau
- Ffocws ar iechyd a lles – wedi'i gyflwyno mewn partneriaeth gyda'r awdurdod lleol a chydweithwyr trydydd sector wedi'i anelu at leihau 'byrdwn' iechyd trwy gefnogi preswylwyr i fyw bywyd mwy iach
- Meddyginiaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth – sy'n cael ei ddarparu trwy ddefnydd effeithlon o adnoddau. Effeithiolrwydd cynyddol, defnyddio adnoddau o safon uwch yn well, helpu i ymestyn capasiti mewn systemau iechyd.
- Defnyddio gofal a thechnoleg o bell - hyd yn oed cyn Covid-19 roedd y Bwrdd Iechyd yn gweithio tuag at ddeialog gwell gyda'r cyhoedd trwy ymgynghoriadau dros y ffôn ac o bell. Mae'r rhain yn cynnwys e-ymgynghoriad pan mae aelodau o'r cyhoedd yn cael ymgynghoriad gyda chlinigydd dros y we, dros y ffôn a rhaglenni 111 sydd yn edrych ar brysbennu a dargyfeirio i'w rhan cywir o'r system iechyd gan leihau nifer diangen o ymwelwyr

- Ôl-troed Ystadau – lle y bo'n bosibl mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda meddygfeydd wrth ddatblygu adeiladau newydd a gwella adeiladau presennol. Trwy glystyrau mae'n annog meddygfeydd i gydweithio (yn cynnwys achub ar y cyfle i gydleoli gyda meddygfeydd eraill a gwasanaethau gofal sylfaenol eraill, er enghraifft, deintyddiaeth ac optometreg mewn adeiladau newydd). Bydd hyn yn galluogi meddygfeydd i gynnig ystod estynedig a mwy hyblyg o wasanaethau i'w cleifion.

5.4 Mae gan y Bwrdd Iechyd ffocws ar feysydd yn Sir y Fflint sydd yn gyson â'r brif ganolfan gwasanaeth sydd wedi'i nodi yn y Strategaeth a Ffafir ar gyfer CDLI Sir y Fflint (yn cynnwys Y Fflint, Treffynnon, Cei Connah, Glannau Dyfrdwy, Shotton a'r Wyddgrug). Mae'r dadansoddiad presennol o alw o'i gymharu â'r ystâd presennol, ei oedran, ei gyflwr ac addasrwydd gweithredol yn dynodi'r angen am fuddsoddiad i ddatblygu mewn sawl ardal, yn cynnwys Queensferry a Shotton, sy'n cael ei ddatblygu.